

Gwledd i'r Synhwyr



Eleni mae canrif a hanner ers codi adeilad presennol Eglwys San Pedr, Llanbedr Pont Steffan. Y mae Iona Warmington yn falch o'i hetifeddiaeth

Saif yr eglwys yn osgeiddig ar ben y bryn a elwir yn Fryn yr Eglwys, yn galw ei ffyddloniaid yn blygeiniol ar y Sul ac yn cadw golwg bugeiliol ar y dref a'i phlwyfolion. Mae'n odidog ac yn groesawgar.

Hi yw'r peth cyntaf a welaf wrth nesáu am adref, gyda'i mawredd addfwyn yn fy nghroesawu. Mae cymaint mwy i'r eglwys na'r strwythur carreg prydfferth a'i thŵr urddasol, wrth gwrs. Mae'r llwybr i fyni'r bryn, gyda'i gosgordd o goedydd yw, sy'n fyw gan gân yr adar ac yn gwarchod gorffwysfan cenedlaethau o blwyfolion, yn eich tywys at y brif fynedfa wrth droed y tŵr, sy'n gartref i'r clychau yr arferai fy nhad eu seinio yn Sabothol ac adeg gŵyl a galar.

Bydd hyfrydwch gogoneddus y llan yn fy nharo bob tro wrth imi gamu drwy ei drysau mawreddog, gyda'i hysblander yn agor o'm blaen. Heb sôn am y wefr ysbrydol sy'n fy mynwesu, caf fy nharo gymaint y mae'r eglwys yn maethu fy holl synhwyr. Mae'r godidowgrwydd yn amlwg i'r llygad, gyda'r llu o ffenestri lliwgar yn goffadwriaeth parhaol i ffyddloniaid a charedigion yr oes a fu, y cerfwaith celfydd, y bedyddfan lle'm bedyddiwyd, a'r goleuadau disglair trydan y byddwn yn helpu fy nhad i'w cynnal a'u cadw.

Mae'r llonyddwch yn falm i'r enaid ar ôl esgyn o brysurdeb y dref islaw, a'r to bwa uchel yn darparu'r acwsteg orau y clywais erioed, boed ar y Sul yn sefyll â balchder—yn fy arddegau—wrth ochr fy chwaer fawr yn ein casogau corawl cochion, gyda'r wenwisg a'r ryffl, yn canu gyda'r Ysgol Sul adeg gŵyl, neu yn yr Ŵyl Gorawl a'r Gymanfa Bwnc.

Yn llenwi fy ffroenau y mae gwynt cŵyr y canhwyllau yn gymysg ag arogl yr hylif melyn cyfoethog y byddwn yn helpu fy mam i'w rwbio ar yr holl waith pres, megis y canwyllbrennau, yr eryr sy'n darparu darllenfa, canllaw'r pulpud, a'r placiau dirifedi yn nodi haelioni a choffadwriaeth ffyddloniaid.

Ac wrth eistedd yng nghorff yr eglwys rwy'n pori ar yr holl hanes sydd o'm cwmpas, ac yn ymhyfrydu ynddo; rwy'n teimlo hiraeth am fy magwraeth hapus fel un o blant yr eglwys; yn teimlo presenoldeb fy anwyliaid sydd bellach wedi ymadael â'r fuchedd hon yn fy anwesu; yn teimlo balchder am eu holl ymroddiad di-flino, ac am fy nghyflwyno i'r ffydd; a theimlo llaw Duw yn fy nghysuro.

Y gobaith yw cynnal rhai digwyddiadau i ddathlu penblwydd arbennig yr eglwys pan fydd cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu. Ceir manylion pellach ar ein tudalennau Facebook, fel a ganlyn: [Eglwys San Pedr Llambod](#)